Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol Penboyr

**Felindre**
**Llandysul**
**SA44 5XG**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Wirfoddol Penboyr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol Penboyr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 79 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 73 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 22% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |
| Mae'r pennaeth hefyd â gofal am ysgol gyfagos | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r ysgol yn rhan greiddiol o fywyd y pentref ac yn cydweithio’n agos â’r eglwys leol. Mae’n gymuned ddysgu deuluol, ddiogel, ofalgar ac ysgogol sy’n rhoi blaenoriaeth glir ar roi cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg i’r pennaeth a’r staff ac maent yn cefnogi anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae bron bob un yn falch o’u hysgol, ac mae’r rhan fwyaf yn barchus, yn ymddwyn yn dda ac yn ystyried anghenion ei gilydd yn barhaus. Mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn ym mron pob agwedd o’u gwaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae’r pennaeth, sydd hefyd â gofal am ysgol gyfagos, yn arweinydd profiadol ac egnïol sy’n sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol. Mae’r staff yn cydweithio’n agos iawn fel tîm i feithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol sy’n sicrhau’r gorau i’r disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy’n eu hysbrydoli a’u hannog i ddatblygu medrau defnyddiol a’u cymhwyso mewn ystod o gyd-destunau dros gyfnod. Mae athrawon yn gwneud defnydd helaeth o’r pentref a’r ardal o’u gwmpas, sy’n frith o hanes a thraddodiadau cyfoethog, i sbarduno’r dysgu. Maent yn aml yn gwahodd unigolion o’r gymuned i siarad â’r disgyblion am eu profiadau a’u hatgofion. Trwy wneud hyn, maent yn sicrhau bod gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth eang o’u hunaniaeth, eu Cymreictod, a’u lle o fewn eu cymuned leol, Cymru a’r byd ehangach. Er hyn, nid yw disgwyliadau’r holl staff yn ddigon cyson i sicrhau bod y disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod eu gwersi nac ar adegau eraill.

Mae gan yr ysgol berthynas agos ac effeithiol â’r rhieni. Mae staff yn cysylltu â nhw’n rheolaidd, yn gofyn am eu barn ac yn eu cefnogi’n gyson â ffyrdd y gallant gefnogi addysg a lles eu plant gartref.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel a chytûn wrth annog y disgyblion i ymateb yn y Gymraeg ar bob cyfle posibl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheini sy'n cael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mron pob agwedd o'u gwaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn briodol, lle bo angen. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar yn y ddwy iaith. Er hyn, ar adegau, mae'r lleiafrif yn tueddu i ymateb yn Saesneg i gwestiynau a chyfarwyddiadau mewn sesiynau cyfrwng Cymraeg neu'n defnyddio llawer o eiriau Saesneg yn eu hymatebion.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn. Mae'r rheini yn nosbarth isaf yr ysgol yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn dangos diddordeb cynyddol mewn llyfrau ac yn eu mwynhau. Maent yn darllen a deall testunau cyfarwydd gyda chywirdeb priodol ac yn mynegi barn yn synhwyrol ar yr hyn maent wedi ei ddarllen. Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn o ystyried eu cam cynnydd. Maent yn ysgrifennu i bwrpas, mewn amrywiol gyfryngau ac yn lled aeddfed yn y ddwy iaith, lle bo'n briodol.

Mae medrau mathemategol a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gref o egwyddorion rhif. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth sydd ganddynt yn gyson mewn gwahanol gyd-destunau. Mae disgyblion yn nosbarth y plant ieuengaf, er enghraifft, yn amcangyfrif a chyfrif sawl taten sydd mewn pot tra bod disgyblion hŷn yn dyblu rhifau wrth ddod o hyd i gyfaint neu'n mesur maint cysgodion a chreu graff o'r data mewn sesiwn wyddoniaeth.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf yn datblygu'n dda iawn. Maent yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn gwahanol gyfryngau fel creu gêm Snakes a Ladders digidol gan ddewis a mewnosod lluniau o gyfleusterau hamdden y pentref a chodio dis er mwyn gallu ei chwarae.

Mae disgyblion wedi hen arfer cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd, datrys problemau, TGCh a'u medrau ehangach yn ystyrlon, yn briodol ac i bwrpas mewn amrywiol brosiectau a chyd-destunau. Un enghraifft nodedig yw eu prosiect diweddar ar y thema Hamddena Hwylus. Mae'r prosiect hwn yn galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau amrywiol wrth ddysgu ffeithiau hynod ddiddorol am yr ystod o gyfleusterau hamddena a oedd ar gael i drigolion Drefach Felindre dros flynyddoedd lawer. Yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am eu harferion hamddena, maent hefyd yn dysgu am hanes lleoedd amlwg a phwysig. Er enghraifft, maent yn dysgu am hanes Neuadd Y Ddraig Goch, Parc Puw, Cystadlaethau Snwcer, Y Band Pres, a thîm pêl-droed Bargod Rangers.

Fel rhan o'u gwaith llythrennedd, er enghraifft, mae disgyblion iau'r ysgol wedi creu poster i ddenu pobl i glwb arbennig. Mae'r disgyblion hŷn wedi ymarfer eu medrau

ysgrifennu llythyr drwy anfon at aelodau'r gymuned i'w holi am eu hatgofion hwythau o'u hamser hamdden flynyddoedd yn ôl. Mae eraill wedi cofnodi'r atgofion a ddaeth i law ar fwrdd gwybodaeth. Mae disgyblion hŷn wedi creu straeon diddorol yn seiliedig ar Barc Puw, a cherddi Cymraeg yn dwyn y teitl 'Y Pentref' neu rai Saesneg ar 'Together' i gyd-fynd â'u hastudiaeth o sut mae hamddena yn gwella'u lles.

Yn dilyn eu hymweliad â'r neuadd snwcer, bu rhai o'r disgyblion iau yn cymhwyso'u medrau rhifedd drwy amcangyfrif a mesur hyd a lled bwrdd snwcer wrth ddysgu am berimedr ac arwynebedd. Bu disgyblion hŷn yn cyfrifo sgorau gan ddefnyddio gwahanol beli snwcer. Bu eraill yn dosbarthu a chofnodi ffeithiau am ddulliau hamdden ddoe a heddiw mewn diagram Venn, ac yn astudio mapiau gan gymhwyso'u dealltwriaeth o gyfesurynnau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh ar lefelau sy'n briodol i'w cam cynnydd ac eto mewn amrywiol gyd-destunau diddorol. Mae'r disgyblion yn nosbarth y plant lleiaf wedi defnyddio tegan symudol electronig i gynllunio taith ar fap o'r pentref, tra bod y rhai hŷn yn cymhwyso'u medrau codio i lunio a dilyn cyfarwyddiadau ar fap o'r ardal.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiol gyfryngau yn grefftus i lunio darnau celf o safon uchel. Mae'r rhain yn cynnwys darnau sy'n defnyddio gwahanol gyfryngau fel ffelt a grëwyd ganddynt yn dilyn eu hymweliad â'r ffatri wlân, a phompomau lliwgar o wlân wedi iddynt sgwrsio ag aelodau'r clwb gweu.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob un disgybl yn falch o'u hysgol a'u hardal leol. Maent yn arddangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodweddiadol o'r natur gynhwysol, deuluol a hynod ofalgar sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar adegau eraill fel amser chwarae. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi'r gofal y mae'r staff yn ei ddarparu iddynt. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain, ac eraill, yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni ac yn cydnabod pwysigrwydd y 'bocs becso' a'r 'wal deimladau' fel cyfryngau hwylus iddynt rannu eu pryderon mewn ffordd breifat. Mae disgyblion yn manteisio'n gyson ar yr amrywiaeth o strategaethau effeithiol sydd gan yr ysgol i gefnogi eu lles emosiynol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n unigolion hapus, iach a hyderus.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau staff, yn dangos diddordeb ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth eu tasgau. Mae llawer yn arddangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth ddysgu ac yn deall ei bod yn iawn iddynt wneud camgymeriadau a bod hynny'n rhan bwysig o'r broses ddysgu. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn ymarfer eu medrau dysgu annibynnol yn dda ac yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol fesul pâr ac mewn grwpiau bychain, gan gynnig cymorth i'w gilydd, pan fo angen. Maent yn gwerthfawrogi ac yn

parchu cyfraniadau pobl eraill, er enghraifft wrth iddynt wrando'n amyneddgar ar eu cyfoedion yn mynegi eu teimladau ac yn rhannu eu barn wrth werthuso darn o gerddoriaeth. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn dylanwadu'n rheolaidd ar elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd naturiol y maent yn cynnig syniadau ar beth hoffent ddysgu ar ddechrau thema neu brosiect newydd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion moesol, caredig a gwybodus. Mae llawer yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn hyderus ac maent yn cyflawni'r rôl yn effeithiol. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn gydwybodol drwy annog eu cyfoedion i gasglu sbwriel, ailgylchu, a thyfu perlysiau yng ngardd yr ysgol. Mae aelodau'r criw Cymraeg yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, ac yn dechrau dylanwadu ar eraill i'w defnyddio wrth chwarae.

Mae'r disgyblion yn sylweddoli bod llawer iawn o bobl sy'n llai ffodus na nhw yn y byd. Maent yn falch o bob cyfle a gânt i gefnogi'r bobl hyn ac i gyfrannu at elusennau amrywiol a gweithgareddau dyngarol yn y gymuned leol. Maent yn teimlo'n rhan bwysig o'u cymuned ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau a chyngherddau yn y pentref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau corfforol mewn sesiynau ffurfiol yn y neuadd ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau dysgu yn yr ardal allanol. Yn ogystal, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn chwarae rôl weithredol yn hyrwyddo buddion byw yn iach ac yn trefnu gweithdai a gweithgareddau yn ystod wythnos 'Iola Iachus', er enghraifft. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn ogystal â datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm ysgogol, datblygiadol, symbylus a thrawsgwricwlaidd i'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu a chymhwyso'u hamrywiol fedrau mewn ystod o gyd-destunau dros gyfnod. Er enghraifft, maent yn aml yn gwneud defnydd helaeth o'r pentref a'r ardal o'u chwmpas, sy'n frith o hanes a thraddodiadau cyfoethog, fel sail i'r dysgu. Mae'r gweithgareddau sy'n deillio o'r cyd-destunau diddorol hyn yn herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrpasol ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd priodol ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae'r prosiect ysgol gyfan Hamddena Hwylus, er enghraifft, yn cymharu'r cyfleusterau hamdden lleol a oedd ar gael yn y gorffennol gyda'r rhai sydd ar gael heddiw. Trwy weithredu fel hyn, mae'r athrawon yn sicrhau bod gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth eang o'u hunaniaeth, eu Cymreictod, a'u lle o fewn eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae'r elfennau hyn yn greiddiol i egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ac mae'r athrawon wedi ystyried hyn o ddifrif wrth gynllunio'u gweithgareddau ac wrth ddarparu cyfleoedd naturiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd, datrys problemau, digidol a TGCh yn gyson ac yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd 'go iawn'.

I ddod â'r dysgu'n fyw i'r disgyblion, gwahoddir unigolion o'r gymuned i siarad â nhw am eu profiadau a'u hatgofion o'u plentyndod a'u llencyndod yn y pentref. Mae hyn, ynghyd ag ymweliadau â mannau perthnasol fel Parc Puw, neuadd Y Ddraig Goch a

Chapel Penrhiw, sydd bellach wedi ei ailgodi yn Sain Ffagan, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu ymhellach iddynt.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn trosglwyddo cynnwys a gofynion y cwricwlwm yn llwyddiannus i'r disgyblion. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae egwyddorion dysgu sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn. Mae llawer o weithgareddau yn yr ardaloedd dysgu yn datblygu annibyniaeth y disgyblion yn bwrpasol. Er hyn, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn feithrin eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon rheolaidd ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ardal allanol gyfoethog sydd ganddi. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol yn effeithiol yn y goedwig yn ystod sesiynau wythnosol tra bod disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cadw'n heini yn y Caban Gymnasteg. Defnyddir yr ardal yn helaeth gan y disgyblion hŷn hefyd, wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau diddorol fel gwrando ar synau ym myd natur wrth baratoi i ysgrifennu cymariaethau. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau yn effeithiol i ennyn diddordeb y disgyblion. Er enghraifft, mae un yn cyfuno gwers gerddoriaeth ac addysg gorfforol, ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio peli i arbrofi â rhythmau cerddorol. Yn yr arfer orau, ym mwyafrif y sesiynau dysgu, maent yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol ac yn holi disgyblion yn fedrus.

Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu yn llwyddiannus ac mae ganddynt berthynas waith dda â'r disgyblion. Mae hyn yn meithrin amgylchedd ddysgu gadarnhaol a chefnogol. Mae'r staff yn modelu'r Gymraeg yn dda, sy'n aml yn dylanwadu'n uniongyrchol ar safon iaith lafar Cymraeg y disgyblion, yn enwedig y rheini sydd ddim yn siarad yr iaith honno gartref. Er hyn, nid yw disgwyliadau'r holl staff bob amser yn ddigon uchel i annog pob un i ymateb yn Gymraeg, lle'n briodol, mewn sesiynau dysgu nac ar adegau anffurfiol.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i wella'u gwaith yn bwrpasol. Mae athrawon yn defnyddio'u hasesiadau dyddiol yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf i'r disgyblion. Ar adegau, mae athrawon yn annog y disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn unol â disgwyliadau'r gweithgaredd. Trwy wneud hyn, mae llawer o ddisgyblion yn sylweddoli beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ddiogel, ysgogol a hynod gynhwysol i'w disgyblion, sy'n hyrwyddo parch a goddefgarwch at eraill yn effeithiol iawn. Mae ei threfniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd ddysgu hamddenol a chynhyrchiol lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ystyriol o anghenion ei gilydd. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg ac mae trefniadau effeithiol iawn yn bodoli i gefnogi lles ac anghenion emosiynol a chymdeithasol bron bob un disgybl. Mae hyn yn nodwedd gref ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn datblygu'n unigolion hyderus, hapus ac iach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion, sy'n galluogi staff i adnabod eu hanghenion yn gynnar, ac i ddarparu cefnogaeth briodol iddynt, lle bo'i hangen. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth i ddisgyblion ag

anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol gynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen cynhwysfawr i'r disgyblion hyn, sy'n cynnwys targedau clir a phwrpasol i ymateb yn drylwyr i'w hanghenion. Mae athrawon yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda disgyblion, y rhieni ac asiantaethau perthnasol, er mwyn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â gweddill y staff, yn cynllunio ymyraethau effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion yn y dosbarth, yn unigol, neu mewn grwpiau bychain, lle bo'n briodol.

Caiff yr holl ddisgyblion gyfleoedd priodol i ddylanwadu ar gynnwys eu prosiectau a themâu. Yn ogystal, drwy gyfrwng y gwahanol gynghorau plant, cânt gyfleoedd gwerthfawr i ddylanwadu'n uniongyrchol ar fywyd a gwaith yr ysgol yn ehangach. Mae aelodau'r amrywiol gynghorau yn weithgar iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt eu cyfoedion o fewn cymuned yr ysgol. Cânt ystod o gyfleoedd bwriadus i ddatblygu eu medrau arwain trwy gyfrwng y cyngor ysgol, y llysgenhadon chwaraeon, y criw Cymraeg, y Grŵp Gobaith a'r pwyllgor eco. Mae'r profiadau hyn yn codi eu hyder, yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrannu at eu cymdeithas, ac yn eu hannog i fod yn ddinasyddion cyfrifol a mentrus, maes o law.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r staff yn eu hannog yn barhaus i fod yn ddinasyddion cyfrifol drwy godi eu hymwybyddiaeth o bobl sy'n eu helpu yn y gymuned leol ac i gefnogi gwahanol elusennau. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd cytûn, fel parch, gonestrwydd, dewrder, ac ymddiriedaeth yn effeithiol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall bod ganddynt reolaeth bersonol dros eu gweithredoedd a bod eu hymddygiad hwythau yn effeithio'n uniongyrchol ar eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn annog disgyblion i gyd-chwarae'n gytûn ar yr iard ac i fod yn ffrind da i'w cyfoedion.

Mae'r profiadau dysgu mae'r ysgol yn eu darparu i'r disgyblion yn ddiddorol ac yn aml yn seiliedig ar eu cymuned leol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad cadarn o'u treftadaeth a'u diwylliant. Er enghraifft, maent yn cael cyfle i ymchwilio i bwysigrwydd y diwydiant gwlân yn lleol ac i ddysgu am fywyd a gwaith Griffith Jones, Llanddowror a anwyd ar gyrion y pentref. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'w cynefin ac i ymfalchïo yn eu treftadaeth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ac effeithiol i fonitro a gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Mae staff yn annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn rheolaidd, fel nofio, chwaraeon a dawns.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol drwy amrywiol weithgareddau. Er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion wedi cydweithio ag artist lleol fel rhan o brosiect Caredigrwydd i greu murlun atyniadol i groesawu ymwelwyr. Mae'r staff hefyd yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol a'r gymuned leol, ac i gymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau cenedlaethol eraill. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder, a'u balchder yn eu hunain a'u hysgol yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth, sydd hefyd â gofal am ysgol gyfagos, yn arweinydd profiadol ac egnïol sy'n sicrhau bod gweithdrefnau strategol yr ysgol yn gadarn ac effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar sicrhau bod ei chymuned yn un deuluol lle bod bob un yn dysgu gyda'i gilydd. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, y rhieni, y llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned leol.

Mae'r pennaeth, yr athrawes sydd â gofal yn ei habsenoldeb, a gweddill y staff yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel. Maent wedi sefydlu diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro lles a chynnydd yr holl ddisgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn sefydliad addysgol diogel a chartrefol sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar les ac addysg ei disgyblion. Mae'r pennaeth yn rheoli perfformiad aelodau staff yn rheolaidd i'w canmol am eu llwyddiannau a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr a chadarn, sydd wedi hen wreiddio. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n uniongyrchol at weinyddu'r rhain. Mae'r llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni hefyd yn cyfrannu atynt yn achlysurol. Mae'r gweithdrefnau monitro yn defnyddio deilliannau o ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa gyfredol, ac yn cyfrannu'n benodol at osod blaenoriaethau datblygu i'r ysgol. Mae prosesau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella hefyd yn gynhwysfawr ac yn anelu at sicrhau gwelliannau yn y meysydd a nodir fel blaenoriaethau.

Ceir diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi gofynion dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae'r gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cysylltu'n glir â chanfyddiadau'r broses hunanwerthuso a'r blaenoriaethau gwella. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi canolbwyntio'n benodol ar wella'r addysgu a datblygu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, datblygu gweithdrefnau asesu newydd, sefydlu tasgau cyfoethog mathemategol a diogelu plant. Mae arweinwyr yn monitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar yr addysgu a, maes o law, ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol, gan sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i'r pennaeth a'r staff. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn cynnal trafodaethau â staff i werthuso'r ddarpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol i'r ysgol ac i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i hybu'r dysgu a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae perthynas gynhyrchiol yn bodoli rhwng y pennaeth, yr athrawes â gofal, y staff a'r rhieni. Maent yn defnyddio amrywiol ddulliau i gyfathrebu â rhieni, ac yn gwrando ar eu safbwyntiau'n rheolaidd i hwyluso'r bartneriaeth. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sefydlu ap i drosglwyddo gwybodaeth yn electronig iddynt yn hytrach nag ond

anfon cylchlythyr papur atynt. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal sesiynau i roi gwybod i rieni am unrhyw newidiadau i'r ffordd mae eu plant yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi codi eu hymwybyddiaeth am egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, diogelwch ar y we ac i rannu syniadau â nhw ar sut y gallant helpu eu plant i ddysgu darllen gartref.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol iawn ag ysgolion eraill, sy'n galluogi staff i rannu arferion da a dysgu gan ei gilydd. Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol ag ysgol gyfagos y mae'r pennaeth hefyd â chyfrifoldeb amdani yn hynod effeithiol ac yn sicrhau bod staff a disgyblion y ddwy ysgol yn elwa.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2024